**Pwyllgor yr Economi,
Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade and
Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi
Llywodraeth Cymru

25 Tachwedd 2022

Annwyl Weinidog,

Cytundeb Masnach Rydd y DU-Seland Newydd - yr effaith ar Gymru

Cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad byr i effaith debygol Cytundeb Masnach Rydd y DU-Seland Newydd ("y Cytundeb") ar Gymru ar ôl iddo gael ei lofnodi ym mis Chwefror 2022. Diolch am ddod i'r Pwyllgor ar 15 Mehefin i drafod y Cytundeb gyda'r Aelodau.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r adroddiad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n rhoi sylwebaeth a dadansoddiad o effeithiau posibl y Cytundeb ar Gymru. Fodd bynnag, nodwn fod yr adroddiad wedi'i gyhoeddi ar ôl sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor gyda chi ar 15 Mehefin, ac felly nid oeddem yn gallu cyfeirio at ei ganfyddiadau yn ein cwestiynau.

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth drwy ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng 25 Mawrth a 25 Ebrill. Clywsom dystiolaeth hefyd gan yr undebau ffermio (FUW ac NFU Cymru), y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ar 15 Mehefin. Yn olaf, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan arbenigwyr masnach y DU, Sam Lowe ac Emily Rees ar 13 Gorffennaf. Rydym yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at ein hymchwiliad.

Nodir ein prif ganfyddiadau ac argymhellion isod. Gan fod negodi a llofnodi cytundebau â gwledydd eraill yn fater a gedwir yn ôl, mae'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Gadeirydd Pwyllgor Masnach Ryngwladol Tŷ'r Cyffredin, Cadeirydd Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi a Chadeirydd Pwyllgor Dethol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin. Hyderwn y bydd ein canfyddiadau yn llywio'r gwaith craffu ar y Cytundeb yn ystod y broses gadarnhau yn Senedd y DU. Rydw i hefyd wedi anfon copi at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd.

**Yr Effaith ar Gymru**

Mae Seland Newydd yn safle 48 o ran y marchnadoedd allforio mwyaf i Gymru, ac yn safle 63 o ran y marchnadoedd mewnforio mwyaf. Mae data ar gyfer 2021 yn dangos mai gwerth allforion o Gymru i Seland Newydd oedd £22.4 miliwn (nwyddau gweithgynhyrchu a pheiriannau ac offer trafnidiaeth yn bennaf) ac mai gwerth mewnforion oedd £12.1 miliwn (bwyd ac anifeiliaid byw a diodydd a thybaco yn bennaf).

Mae'r asesiad o'r effaith gan Lywodraeth y DU yn amcangyfrif y bydd y Cytundeb yn arwain at gynnydd mewn Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) i Gymru o 0.02 y cant (£16 miliwn) dros 10-15 mlynedd ar ôl ei roi ar waith.

Mae'r asesiad o'r effaith gan Lywodraeth y DU yn cydnabod ansicrwydd sylweddol wrth amcangyfrif effeithiau'r Cytundeb gan fod y modelu'n seiliedig ar dybiaethau penodol am yr economi fyd-eang a'r berthynas fasnach rhwng y DU a Seland Newydd. Mae'r modelu a ddefnyddir hefyd yn arwain at 'lefel uchel o ansicrwydd' wrth amcangyfrif effeithiau'r Cytundeb ar wahanol wledydd a rhanbarthau ledled y DU.

Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor ar Gytundeb Masnach Rydd y DU-Awstralia, nododd Emily Rees nad yw'r asesiad o'r effaith gan Lywodraeth y DU yn rhoi amlinelliad da o'r effeithiau is-sectoraidd posibl, gan gynnwys ar lefel ranbarthol. Mewn perthynas â Chytundeb y DU-Seland Newydd, awgrymodd Emily Rees, er mwyn deall effaith y Cytundeb ar Gymru yn well, y byddai angen defnyddio modelu sectoraidd, megis amaethyddiaeth yng Nghymru, a fyddai wedyn yn rhoi amcangyfrif mwy manwl o effeithiau'r Cytundeb ar wledydd ac is-sectorau. Dywedodd hefyd ei bod yn anodd iawn edrych ar lefel manwl o ran pwy fyddai ar eu hennill neu ar eu colled o ganlyniad i gytundeb masnach.

Nododd FUW ei siom ei bod yn ymddangos bod gan yr asesiad o'r effaith ar gyfer y Cytundeb hwn hyd yn oed llai o fanylder nag yr oedd ar gyfer Cytundeb y DU-Awstralia, ac y byddai wedi hoffi gweld mwy o effeithiau daearyddol a sectoraidd yn cael eu hamlinellu. Dywedodd FUW y byddai'n hoffi gweld asesiadau effaith sy'n edrych ar amrywiaeth ehangach o senarios masnachu, gan gynnwys amrywiadau o ran cyfraddau cyfnewid, ac effeithiau hynny yn y tymor byr a'r hirdymor, a'r effaith ar wahanol sectorau a gwahanol ardaloedd daearyddol.

Rydym yn nodi bod dadansoddiad Llywodraeth Cymru o effeithiau posibl y Cytundeb ar Gymru yn nodi nad yw wedi gallu cynnal na chomisiynu ei waith modelu ei hun o'r Cytundeb oherwydd heriau, gan gynnwys argaeledd data. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn falch bod gwaith yn cael ei wneud gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod mwy o ddata masnach ar gael ar gyfer Cymru. Rydym hefyd yn nodi

barn Llywodraeth Cymru ei bod yn debygol y byddai modelu o'r math hwn yn cael ei wneud yn well o fewn model ehangach y DU oherwydd bod yr economi yng Nghymru wedi'i hintegreiddio'n agos â gweddill y DU.

Mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn bryderus nad yw'r asesiadau o'r effaith gan Lywodraeth y DU yn rhoi digon o wybodaeth i ddeall yn llawn effeithiau tebygol cytundebau masnach y DU ar Gymru. Er bod effaith economaidd debygol y Cytundeb hwn yn fach, mae'r DU ar hyn o bryd yn negodi cytundebau masnach gyda phartneriaid lle mae'r effeithiau economaidd yn debygol o fod yn llawer mwy sylweddol.

Mae'n hollbwysig felly bod gan lywodraethau a busnesau ddealltwriaeth glir o'r effaith wahanol y mae cytundebau masnach rydd yn ei chael ar wahanol wledydd a sectorau o fewn yr ardaloedd daearyddol hynny, er mwyn deall unrhyw gyfnewid a chyfaddawdau, a rhoi polisïau a chamau ar waith i liniaru effeithiau a gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd a gyflwynir drwy gytundebau penodol.

Yn ein llythyr at Lywodraeth Cymru ar Gytundeb Masnach Rydd y DU-Awstralia gwnaethom argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i ofyn am gynnwys asesiad llawn o'r effeithiau tebygol ar sectorau ac is-sectorau o fewn gwledydd a rhanbarthau'r DU mewn asesiadau o effaith cytundebau masnach yn y dyfodol. Gofynnwyd hefyd i Lywodraeth Cymru roi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw drafodaethau y mae'n eu cael gyda Llywodraeth y DU ar y materion hyn.

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno'r un sylwadau mewn perthynas â'r cytundeb masnach â Seland Newydd ag a argymhellwyd gan y Pwyllgor mewn perthynas â Chytundeb Masnach Rydd y DU-Awstralia. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gofyn am gael gwybod am unrhyw drafodaethau yn y gorffennol a'r dyfodol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y mater hwn.

### Cyfleoedd i Gymru

Mae cytundebau masnach newydd yn aml yn arwain at greu 'enillwyr a chollwyr' a all amrywio o sector i sector ac ardal i ardal. Er bod effaith debygol Cytundeb y DU-Seland Newydd ar Gymru ar lefel gyfanredol yn gymharol fach, tynnodd tystion a rhanddeiliaid sylw at rai cyfleoedd newydd i fusnesau o ganlyniad i'r Cytundeb.

Dywedodd y Ffederasiwn Busnesau Bach wrthym y bydd y Cytundeb yn dwyn buddiannau sylweddol i fusnesau bach sy'n masnachu gyda Seland Newydd ar hyn o bryd neu'n ystyried gwneud hynny. Mae ei hymchwil wedi dangos bod tua thraean (30 y cant) o gwmnïau bach y DU sy'n masnachu'n rhyngwladol eisoes yn gwneud hynny â Seland

Newydd a nododd tua chwarter (23 y cant) fod Seland Newydd yn bwysig ar gyfer eu huchelgeisiau o ran allforio.

Dywedodd Sam Lowe fod y Cytundeb yn cynnwys darpariaethau rheolau tarddiad sy’n eithaf hyblyg ac sy’n mynd ymhellach na chytundebau eraill, gan ei gwneud yn haws i gwmnïau gymhwyso ar gyfer masnach ddi-dariff o dan y Cytundeb.  Tynnodd Emily Rees sylw hefyd at yr agwedd 'cronni tarddiad' o'r Cytundeb hwn ochr yn ochr â chytundebau masnach rydd eraill, gan arwain at fwy o oddefgarwch o ran deunyddiau nad ydynt yn tarddu o’r wlad.

Tynnodd Sam Lowe sylw hefyd at y ffaith, ochr yn ochr â thrafodaethau ar y DU yn ymuno â Chytundeb Partneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel, bod y Cytundeb yn gosod y sylfaen ar gyfer lleihau dyblygu ynghylch asesiadau cydymffurfio ac ardystio rhwng y DU a Seland Newydd.

Croesewir ymrwymiadau yn y cytundeb sy’n helpu i hwyluso masnach drawsffiniol mewn gwasanaethau, gan gynnwys ymrwymiad newydd i ganiatáu i ddarparwyr gwasanaethau aros dros dro yn Seland Newydd at ddibenion darparu gwasanaeth. Croesewir hefyd ddarpariaethau i hwyluso llif data a allai fod o fudd i fusnesau gwasanaethau ariannol.

Tynnodd Sam Lowe ac Emily Rees sylw at rôl gref y llywodraeth o ran nodi a thynnu sylw at y cyfleoedd posibl i fusnesau, yn enwedig busnesau bach a chanolig, fasnachu â Seland Newydd o dan y Cytundeb. Mae hyn hefyd yn cynnwys rhoi’r cymorth angenrheidiol i fusnesau ddeall trefn reoleiddio Seland Newydd, yn ogystal â chymorth drwy ffeiriau masnach a chyllid allforio.

Nododd Emily Rees mai’r prif gyfleoedd i gwmnïau o Gymru, o ystyried pa mor bell i ffwrdd yw Seland Newydd, fydd allforio cynhyrchion sydd eisoes yn cael eu masnachu â gwledydd y tu allan i’r UE. Ychwanegodd fod cyfleoedd arbennig i ddiwydiannau lle mae arbenigeddau wedi'u datblygu yng Nghymru, megis deunyddiau cynhyrchu pŵer yn y farchnad ynni adnewyddadwy sy'n tyfu, awyrenneg, peiriannau a rhannau trydanol, a'r sectorau meddygol a fferyllol. Nododd hefyd gyfleoedd posibl i Gymru roi ei hun mewn sefyllfa i fod yn ganolfan arloesedd i gyflenwi cynhyrchion technolegol o’r radd flaenaf, â gwerth ychwanegol uchel i farchnad ehangach Asia-Môr Tawel gan ddefnyddio Seland Newydd fel man lansio. Tynnodd Sam Lowe sylw hefyd at gyfleoedd posibl mewn dur o ansawdd uchel, arbenigedd mewn cymhwyso technoleg gwynt ar y môr, ac mewn technoleg ariannol.

Argymhelliad 2: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda busnesau i nodi a manteisio ar gyfleoedd sy'n codi o ganlyniad i'r Cytundeb, gan gynnwys y sectorau y cyfeiriodd yr arbenigwyr masnach atynt yn eu tystiolaeth i'r Pwyllgor.

**Y Sector Bwyd-amaeth**

Yn yr un modd â Chytundeb y DU-Awstralia, amcangyfrifir y bydd allbwn yn gostwng yn y sectorau amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota, a bwydydd wedi'u lled-brosesu o ganlyniad i'r Cytundeb, ac amcangyfrifir y bydd gostyngiad hirdymor mewn allbwn o £48 miliwn a £97 miliwn yn y drefn honno. Mae hyn yn cael ei yrru gan fwy o gystadleuaeth mewnforio ar gyfer rhai cynhyrchion amaethyddol, yn enwedig cig defaid a chig eidion.

Mynegodd yr undebau ffermwyr a Hybu Cig Cymru eu pryderon ynghylch y Cytundeb a'i effeithiau ar y sector bwyd-amaeth, gan gynnwys y gallai unrhyw gynnydd mewn mewnforion o gig premiwm o Seland Newydd effeithio ar y 'cydbwysedd carcasau' a phroffidioldeb cynhyrchwyr Cymru, a bod y Cytundeb yn dod ar adeg pan fo'r diwydiant eisoes yn wynebu heriau eraill megis pwysau chwyddiant, cynnydd mewn costau mewnbwn, a phrinder llafur. Galwodd Hybu Cig Cymru hefyd am fwy o gefnogaeth i sector cig coch Cymru, gan nodi ei bod yn hanfodol bod labelu clir a gweladwy ar unrhyw gynnyrch sy'n cael ei fewnforio a bod nodi'r wlad tarddiad yn amlwg ar becynnau a/neu fwydlenni yn ofyniad cyfreithiol ac yn cael ei orfodi'n llym.

Dywedodd undebau ffermio Cymru eu bod yn disgwyl i'r effaith fod yn gynyddol negyddol wrth i gwotâu gael eu codi a'u diddymu yn y pen draw dros amser, ond nodwyd bod gormod o ansicrwydd gyda phatrymau masnachu byd-eang a chyfraddau cyfnewid i ganiatáu asesiad cywir.

Nododd NFU Cymru y gwahaniaeth ym maint y farchnad a'r ffaith bod ffermwyr Seland Newydd yn cynhyrchu ar gyfer y farchnad allforio yn bennaf, lle mae 90 y cant o'r cig eidion y maent yn ei gynhyrchu yn cael ei allforio. Dywedodd NFU Cymru ei bod yn anodd gweld pa fudd sydd i ffermwyr Cymru. Dywedodd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, wrth y Pwyllgor ei bod yn gweld rhai manteision bach yn ymwneud â gwasanaethau, ond yn bennaf cyfleoedd cyfyngedig iawn ar gyfer bwyd-amaeth, gyda dim ond rhai mân gyfleoedd ar gyfer bwydydd fel nwyddau wedi'u pobi a sawsiau a grawnfwydydd wedi'u paratoi.

Dywedodd Sam Lowe ei fod yn credu y bydd rhywfaint o gystadleuaeth, ond bod pryderon cynhyrchwyr bwyd-amaeth wedi'u gorbwysleisio ychydig, ond ychwanegodd y gallai fod yn anghywir am hynny.

Cafodd y Pwyllgor hefyd gyflwyniad ar y cyd gan Beef + Lamb New Zealand Ltd a'r Meat Industry Association Inc, a ddywedodd "dim ond i raddau cyfyngedig y bydd y fasnach a hwylusir gan y CMR mewn cynhyrchion amaethyddol yn gallu effeithio ar gynnal economi Cymru yn gyffredinol, a'r sector amaethyddol yn benodol." Tynnodd sylw at werthoedd a rennir a 'synergeddau', a manteision cydweithredu agos ar faterion rheoleiddio a pholisi megis safonau bwyd, lles anifeiliaid a diwygio amaethyddol. Roedd yn ystyried pryderon ffermwyr Cymru y byddai'r Cytundeb yn arwain at gynnydd mewn mewnforion o Seland Newydd yn "ddi-sail" o ystyried bod cwota Sefydliad Masnach y Byd Seland Newydd gyda'r DU ar gyfer cig defaid yn cael ei danddefnyddio ac oherwydd bod y rhan fwyaf o'i chig defaid eisoes yn cael ei allforio i UDA a Tsieina.

Aethant i'r afael hefyd â phryderon a leisiwyd gan ffermwyr y DU y bydd Seland Newydd yn cynyddu ei chynhyrchiant amaethyddol yn ddramatig:

*"(...) wrth i bwysau gynyddu ar ddiwydiannau ffermio a phrosesu Seland Newydd, ni all y sector gynhyrchu llawer mwy o gynnyrch. Mae polisïau amgylcheddol, twf y boblogaeth, newid i'r defnydd o dir, a phrinderau llafur yn cyfyngu ar allu'r sector i dyfu."*

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y pryderon a leisiwyd gan y sector bwyd-amaeth yng Nghymru, yn enwedig o ystyried bod y sector amaethyddiaeth yng Nghymru yn gwneud mwy o gyfraniad i economi Cymru yn nhermau GYC nag y mae ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu y bydd y ddau gytundeb masnach ar gyfer y DU yr ydym wedi'u hystyried yn fanwl hyd yn hyn yn debygol o gael effaith negyddol ar y sector bwyd-amaeth yng Nghymru.

## Mecanwaith Monitro ac Effeithiau Cronnus

Fel yn achos Cytundeb y DU-Awstralia, mae'r Pwyllgor yn rhannu'r pryderon a leisiwyd gan sector bwyd-amaeth Cymru ynghylch effaith bosibl digwyddiadau geowleidyddol ar lifoedd masnach ac unwaith eto mae'n pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod systemau monitro effeithiol ar waith.

Mae'r Pwyllgor wedi nodi ymateb y Gweinidog i'n hargymhellion blaenorol mewn perthynas â Chytundeb y DU-Awstralia. Rydym yn croesawu gwaith parhaus gan Lywodraeth Cymru gyda llywodraethau eraill ledled y DU, a chyda'r sector bwyd-amaeth yng Nghymru, i sicrhau bod dulliau effeithiol ar waith i fonitro'r farchnad. Rydym hefyd yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i nodi effeithiau cronnol ac yn parhau i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ar yr angen i ddeall effeithiau cronnol cytundebau masnach rydd ar economi Cymru.

O ystyried yr ansicrwydd ynghylch effeithiau tebygol y Cytundeb ar sectorau yng Nghymru, mae'r Pwyllgor yn ailadrodd ei farn bod mecanweithiau effeithiol ar gyfer monitro marchnadoedd yn hanfodol i sicrhau bod llywodraethau a busnesau'n gallu ymateb yn effeithiol i unrhyw effeithiau andwyol o ganlyniad i'r Cytundeb.

Argymhelliad 3: Mae'r Pwyllgor yn gofyn am gael diweddariadau rheolaidd gan Lywodraeth Cymru ar weithgareddau monitro sy'n ymwneud â'r Cytundeb Masnach Rydd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r trafodaethau y mae wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU yn dilyn ei chais am ddata masnach manylach ar gyfer Cymru er mwyn cynorthwyo gwaith dadansoddi yn y maes hwn.

**Lles anifeiliaid**

Mae'r bennod ar Les Anifeiliaid yn y Cytundeb yn cynnwys cymalau dim atchweliad a dim rhanddirymiad. Mae'r testun cyfreithiol ar yn darparu y bydd y naill ochr a'r llall yn defnyddio eu "*best endeavours* not to weaken or reduce the protection afforded to the welfare of farmed animals in its animal welfare laws and regulations, in a manner materially affecting trade or investment between the Parties." Mae'r bennod yn darparu ymhellach "neither Party *shall waive or derogate* from its animal welfare laws and regulations in a manner materially affecting trade or investment between the Parties".

Mae'r iaith a ddefnyddir yn y Cytundeb yn gyson â darpariaethau dim atchweliad a dim rhanddirymiad a ddefnyddir mewn cytundebau masnach rydd eraill. Fodd bynnag, mae'n mynd ymhellach na'r darpariaethau cyfatebol sydd wedi'u cynnwys ym mhennod Lles Anifeiliaid Cytundeb Masnach Rydd y DU ac Awstralia a oedd yn darparu fel a ganlyn: "each Party *shall endeavour* to ensure that it does not waive or otherwise derogate from…its laws regulations and policies in a manner that weakens or reduces its level of animal welfare protection as an encouragement for trade or investment between the Parties".

Roedd rhanddeiliaid yn croesawu cynnwys pennod lles anifeiliaid yn y Cytundeb. Dywedodd RSPCA Cymru wrth y Pwyllgor, yn wahanol i Awstralia, fod gan y DU safonau lles anifeiliaid cyfreithiol tebyg i Seland Newydd, sy'n golygu mai Cytundeb Masnach Rydd Seland Newydd, ar wahân i'r Cytundeb Masnach a Chydweithrediad â'r UE, yw'r unig Gytundeb Masnach Rydd y mae'r DU yn ei negodi lle mae safonau lles anifeiliaid yn cyfateb yn fras, ond gyda rhywfaint o anghysondeb.

Roedd canfyddiadau'r Pwyllgor mewn perthynas â Chytundeb y DU-Awstralia yn cynnwys pryderon a fynegwyd ynghylch darpariaethau lles anifeiliaid y cytundeb hwnnw, a chafwyd

sicrwydd gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd bod amodau ynghylch safonau lles anifeiliaid yn rhywbeth yr oedd Llywodraeth Cymru yn gwthio amdano mewn mandadau negodi yn y dyfodol.

Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei bod hefyd yn croesawu'r bennod ar les anifeiliaid a'i bod yn welliant o gymharu â Chytundeb y DU-Awstralia a'i bod yn cynrychioli dull gweithredu mwy uchelgeisiol. Dywedodd y Gweinidog hefyd fod hwn yn faes yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i ymdrechu'n galed i'w gael wedi'i gynnwys yn y Cytundeb a thynnodd sylw hefyd at bwysigrwydd defnyddio'r Gweithgor Lles Anifeiliaid a sefydlwyd o dan y Cytundeb i barhau i gydweithredu ar y materion hyn.

Rydym hefyd yn nodi bod dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Cytundeb yn nodi'r canlynol:

*(…) whilst there are similar objectives between the two countries around the approach taken for animal welfare and the commitment for each country to improving and advancing the protection afforded to the welfare of farmed animals in its animal welfare laws and regulations, we welcome the commitment to retaining the right to regulate our own standards as well as commitment to non-derogation of welfare standards.*

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cynnwys pennod lles anifeiliaid yn y cytundeb masnach rydd hon ac mae'n credu y dylid cynnwys ymrwymiadau tebyg yng nghytundebau masnach y DU yn y dyfodol.

Argymhelliad 4: Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno sylwadau ar unwaith i Lywodraeth y DU i sicrhau bod ganddi gynrychiolaeth ar y Gweithgor Lles Anifeiliaid a sefydlwyd o dan y Cytundeb Masnach Rydd, a bod y Pwyllgor yn cael gwybod am waith y grŵp hwn.

**Ymgysylltu yn ystod y trafodaethau**

Fel y nodwyd yn ein llythyr ynghylch Cytundeb y DU-Awstralia, mae'r Pwyllgor yn rhannu barn Llywodraeth Cymru y dylid cael mwy o ymgysylltu rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yn gynharach mewn trafodaethau masnach. Dylai hyn hefyd gynnwys ymgysylltu gweithredol wrth lunio amcanion negodi ar gyfer cytundebau masnach yn y dyfodol.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn ystod y trafodaethau ar Gytundeb y DU-Seland Newydd wedi bod yn gadarnhaol. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu ar lefel Weinidogol drwy gyfarfodydd y

Fforwm Gweinidogol ar gyfer Masnach, yn ogystal ag ar lefel swyddogol lle rhannwyd testun drafft penodau mewn meysydd datganoledig.

Rydym hefyd yn falch o nodi bod gwelliannau wedi'u gwneud o ran ymgysylltu o gymharu â'r trafodaethau ar gyfer Cytundeb y DU-Awstralia a bod Llywodraeth Cymru bellach wedi'i gwreiddio'n well yn y broses negodi.

Fodd bynnag, mae'n anffodus bod ymgysylltu Llywodraeth y DU â Llywodraeth Cymru yn ystod y trafodaethau yn parhau i fod wedi'i gyfyngu i feysydd y mae Llywodraeth y DU yn credu eu bod yn feysydd polisi cwbl ddatganoledig yn hytrach na phob maes a allai gael effaith sylweddol ar feysydd lle ceir cyfrifoldebau datganoledig. Mae'r gwahaniaeth hwn yn bwysig ac mae'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd ymgysylltu ehangach yn digwydd yn y dyfodol.

Argymhelliad 5: Mae'r Pwyllgor yn gofyn am gael y wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau sy'n ymwneud ag ehangu gwaith ymgysylltu Llywodraeth y DU â Llywodraeth Cymru yn ystod y trafodaethau fel eu bod hefyd yn cynnwys ymgysylltu ar feysydd a allai gael effaith sylweddol ar feysydd polisi datganoledig.

**Dynodiadau Daearyddol**

Nid yw'r Cytundeb yn cynnwys unrhyw amddiffyniadau ychwanegol ar gyfer Dynodiadau Daearyddol y DU. Mae'r Cytundeb yn cynnwys ymrwymiad, os bydd Seland Newydd yn ymrwymo i gytundeb rhyngwladol sy'n ei gwneud yn ofynnol iddi ddiogelu Dynodiadau Daearyddol, neu'n cyflwyno cynllun Dynodiad Daearyddol pwrpasol ar gyfer cynhyrchion amaethyddol neu fwydydd anifeiliaid yn y dyfodol, y bydd y DU yn gallu cyflwyno Dynodiadau Daearyddol ar gyfer amddiffyniad posibl. Yn eu tystiolaeth, amlygodd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr ei siom ynghylch hyn, gan nodi:

*"NFU Cymru believes that ensuring GIs receive protection in all third countries must be a priority for UK negotiators.*

*"Welsh producers are proud of their products and the heritage which comes along with them. PGI Welsh lamb and beef are recognised around the world for their quality and provenance. The use of Geographical Indicators would have allowed us to differentiate our product from the world market, access a premium and increase profitability."*

Tynnodd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, sylw at bwysigrwydd cydnabod Dynodiadau Daearyddol ar gyfer cynhyrchion Cymreig mewn cytundebau masnach, a dywedodd ei bod yn bwysig gwthio'n gryf iawn i sicrhau bod

Dynodiadau Daearyddol Cymru yn cael eu cynnwys mewn unrhyw gynllun a fabwysiedir gan Seland Newydd yn y dyfodol.

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod yr UE a Seland Newydd wedi cwblhau trafodaethau ar gyfer cytundeb masnach rydd ar 30 Mehefin. Roedd Cytundeb Masnach Rydd yr UE-Seland Newydd yn cynnwys darpariaethau sy'n cynnig amddiffyniadau ar gyfer Dynodiadau Daearyddol penodol yr UE a Seland Newydd, gan gynnwys cydnabod Dynodiadau Daearyddol bwyd-amaeth yr UE.

Yng ngoleuni'r darpariaethau ar Ddynodiadau Daearyddol sydd wedi'u cynnwys yng Nghytundeb Masnach Rydd yr UE-Seland Newydd, dylid cynnal trafodaethau brys rhwng y DU a Seland Newydd i sicrhau bod Dynodiadau Daearyddol yn cael eu cynnwys yng Nghytundeb Masnach Rydd y DU-Seland Newydd.

Argymhelliad 6: Mae'r Pwyllgor yn gofyn am gael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw drafodaethau a sylwadau a wneir gan Lywodraeth Cymru i Lywodraeth y DU ar y mater o gytuno ar Ddynodiadau Daearyddol newydd gyda Seland Newydd.

**Llywodraethu**

Dywedodd Llywodraeth Cymru o'r blaen fod ganddi ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y trefniadau llywodraethu ar gyfer Cytundeb y DU-Awstralia, ond nid yw'n glir eto pa gyfraniad y bydd gennych. Yn eich tystiolaeth i'r Pwyllgor dywedoch nad oedd yn glir sut roedd y gweithgorau a'r pwyllgorau yn mynd i weithio, bod angen i Lywodraeth Cymru ddeall sut rydym yn mynd i gyfrannu, a'i fod yn destun rhwystredigaeth nad oedd hyn wedi digwydd eto.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod ansicrwydd yn parhau ynghylch rôl Llywodraeth Cymru yn nhrefniadau llywodraethu'r Cytundebau Masnach Rydd ag Awstralia a Seland Newydd.

Rydym yn ailadrodd yr argymhelliad a wnaed yn ein llythyr atoch ar Gytundeb y DU-Awstralia a oedd yn galw am gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael rôl yn nhrefniadau llywodraethu'r Cytundeb.

Argymhelliad 7: Gofynnwn i'r Pwyllgor gael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gynnydd a wneir o ran cytuno ar rôl i Lywodraeth Cymru yn nhrefniadau llywodraethu'r Cytundebau Masnach Rydd ag Awstralia a Seland Newydd.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb i'r materion a godwyd yn ein hymchwiliad.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.